

SEICOLEG



@PSYCH_UWTSD

MEHEFIN 2025

Taith Cyn-fyfyrwyr: Ditectif yr Heddlu

SUT MAE FY NGRADD SEICOLEG WEDI BOD O FUDD I MI A'M GYRFA

Roeddwn i mewn cyflogaeth llawn amser; wedi fy orweithio'n ddifrifol, ac yn cael fy nhalu'n wael iawn, pan ddaeth y syniad i mi fod angen i mi ddianc a chyflawni rhywbeth. Roeddwn i'n teimlo bod angen i mi gael gradd a gwir agor fy nghyfleoedd gyrfa.



PAM SEICOLEG YN PCYDDS?

Rwy wir yn credu bod fy natblygiad yn PCYDDS, yr ehangder o wybodaeth rydw i wedi'i amsugno, ansawdd beth rydw i wedi'i ddysgu, a'r safonau academaidd yr oeddwn i'n disgwyl eu cyflawni, wedi fy ngalluogi i weithio fel ditectif heddlu, lle gall fy rôl amrywio o ymchwilio i droseddau cyfaint, troseddau treisgar, amddiffyn plant, hyd at y troseddau mwyaf erchyll oll. Rwy'n credu i beth ddysges i fy ngalluogi i ddod yn dditectif cadarn, dadansoddol gydag empathi sydd bob amser yn ymdrechu i roi o'i orau yn ei waith.



PA SGILIAU YDYCH CHI'N EU DEFNYDDIO YN EICH SWYDD?

Roedd fy mhenderfyniad i astudio Seicoleg yn PCYDDS yn un hawdd ac, os ydych chi'n darllen hwn, mae'n debyg ein bod ni'n gwerthfawrogi llawer o'r un pethau. Bron dros nos, fe wnes i'r penderfyniad i gofrestru ar y cwrs. Roedd gen i awch erioed am wybod sut mae pobl yn gweithio; Beth sy'n eu cymell nhw? Sut galla i ddeall neu helpu pobl yn fwy effeithiol? Sut a pham mae pobl mor wahanol i mi, er ein bod ni wedi tyfu i fyny mewn amodau tebyg?

BETH YDYCH CHI WEDI'I GAEL O'R RADD?



Yn fwy nag unrhyw swydd rwy wedi'i chael erioed, yn rôl plismona rwy wedi gorfod defnyddio fy nealltwriaeth seicolegol a'm sgiliau. Mae pob person mor wahanol; dyw dioddefwyr, tystion a phobl dan amheuaeth ddim bob amser sut maen nhw'n ymddangos ar y teledu, ac roedd hynny'n addysg fawr i mi. Yn olaf, mae'n amhosib anwybyddu gwerth gwybod sut i ddefnyddio eich safonau academaidd yn eich bywyd proffesiynol, neu beth i edrych amdano ynoch chi'ch hun o ran straen a rheoli gwaith, neu mewn eraill ar adegau tyngedfennol sy'n newid eu bywydau cyfan.

Mae gen i edmygedd o'r rhai sy'n astudio Seicoleg. Efallai y bydd y rhai ohonom a ddewisodd y llwybr hwn yn gorffen mewn swyddi hollol wahanol ond rwy'n credu bod gan lawer ohonom un nod cyffredin, cryf iawn; Un diwrnod, y naill ffordd neu'r llall, rydyn ni'n mynd i helpu rhywun, a beth allai fod yn fwy gwerthfawr na hynny?



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Seicoleg a Cwnsela
Psychology and Counselling